# Beth Sydd Ymlaen – Rhaglen Gerddoriaeth

## Dydd Sadwrn 31 Awst & Dydd Sul 1 Medi 2024

Bydd y rhaglen gerddoriaeth yn digwydd rhwng 11am a 5pm ar y ddau ddiwrnod, gyda Phrif Lwyfan Tŵr Cam Maes Parcio'r Twyn yn parhau tan 8pm ddydd Sadwrn yn unig. O 9am tan 11am bydd cerddoriaeth yn cael ei chwarae dros y system PA ledled y dref i ymwelwyr ei mwynhau nes bod y perfformiadau byw yn dechrau. Lle bo modd, bydd grwpiau cymunedol lleol yn perfformio ar y prif lwyfan yn ystod yr amseroedd hyn!

### Ardal 1 – Llwyfan y Foneddiges Werdd – Heol Caerdydd / Kings Arms

### Dydd Sadwrn

11.00am – 12.15pm Richard Robling
12.40pm – 1.45pm Act Happy
2.10pm – 3.20pm Secret Postal Society
3.45pm – 5.00pm Post Modern Jukebox Duo

### Dydd Sul

11.00am – 12.15pm Ragsy
12.40pm – 1.45pm Richard Dinning
2.10pm – 3.20pm The Carlton's feat. Mudflat Glover
3.45pm – 5.00pm Hot Gin Duo

### Ardal 2 – Llwyfan Ffos y Castell - Crescent Road

### Dydd Sadwrn

11.00am – 12.15pm Omega Two
12.45pm – 2.00pm Juno Acoustic
2.20pm – 3.30pm Frankie Wesson Duo
3.50pm – 5.00pm Spencer Flay

### Dydd Sul

11.00am – 12.15pm Acoustic Notation

| | |
|---|---|
| 12.45pm – 2.00pm | Rebecca Richards |
| 2.20pm – 3.30pm | Wrenna |
| 3.50pm – 5.00pm | Cadence Acoustic Duo |

## *Ardal 3 – Prif Lwyfan y Tŵr Cam – Maes Parcio'r Twyn*

### *Dydd Sadwrn*

| | |
|---|---|
| 9.30am – 10.15am | RecRock (perfformiad cymunedol) |
| 11.00am – 12.00pm | Ragsy Quartet |
| 12.20pm – 1.35pm | Mendocino Family |
| 2,00pm – 3.00pm | Noone Knows |
| 3.25pm – 4.30pm | Albino Frogs |
| 4.50pm – 6.05pm | Nearly Steely |
| **6.35pm – 8.00pm** | **PRIF ARTISTIAID: BIG MAC'S WHOLLY SOUL BAND** |

### *Dydd Sul*

| | |
|---|---|
| 9.30am – 10.15am | Connect Life (Perfformiad cymunedol) |
| 11.00am – 12.00pm | Pyramid |
| 12.25pm – 1.25pm | Livestock Davies and the Lowdown Snakes |
| 1.50pm – 3.10pm | The Strip Lights |
| **3.30pm – 5.00pm** | **PRIF ARTISTIAID: SLIPPED DISCO** |

# *Gwybodaeth am yr Artistiaid*

## *Richard Robling*



Fel edmygydd o gyfansoddwyr caneuon gwych o bob genre, mae rhestr set Richard yn amrywiol ac wedi'i chynllunio i blesio cymaint â phosibl. Bydd caneuon gan faledwyr mawr y pedwardegau a'r pumdegau, o sgiffl y pumdegau i roc y chwedegau, gan gynnwys y sin werin, i fyny i'n dyddiau ni – ac un neu ddwy o ganeuon gwreiddiol ei hun. Mae'r gitâr acwstig yn asio'n wych gyda'i lais.

**Dolen i Facebook: https://www.facebook.com/richard.robling.9**
**Dolen i gerddoriaeth: www.youtube.com/watch?v=oYvKrWKXmOs**

## *Act Happy*



Mae Act Happy yn ddeuawd acwstig sydd wedi'u lleoli yng Nghasnewydd, De Cymru. Mae ganddyn nhw arddull gwerin dywyll nodedig gyda dylanwadau roc a phop. Mae Act Happy yn chwarae gigs yn rheolaidd yn yr ardal leol ac yn ehangu ledled y Deyrnas Unedig. Byddan nhw'n gwneud eu hymddangosiad cyntaf ym myd gwyliau'r Deyrnas Unedig yn ystod haf 2024.

Os ydych chi am gael gwybod am y gigs a'r newyddion diweddaraf, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n tanysgrifio i'w rhestr bostio.

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau ynglŷn â chadw lle, defnyddiwch y ffurflen gyswllt ar eu gwefan: https://acthappymusic.com/bio

**Dolen i Facebook: https://www.facebook.com/act.happy.2023**
**Dolen i gerddoriaeth:**
**https://open.spotify.com/artist/3LIYGMCSM6NCnKxMn7I4RV?si=hIrdTbN-QqSmlgOC_idrdg**

## *Secret Postal Society*




Mae Secret Postal Society yn brosiect cerddorol gan y canwr/cyfansoddwr ac offerynnwr amryddawn Craig Mapstone. Ar ddiwedd 2020 fe wnaeth Craig herio ei hun i ysgrifennu, recordio a rhyddhau cân wreiddiol newydd sbon bob wythnos trwy gydol 2021. Erbyn diwedd 2021 roedd Craig nid yn unig wedi rhyddhau 53 o draciau ond roedd hefyd wedi creu fideos cerddoriaeth a gwaith celf i gyd-fynd â phob cân.

Yn 2022 fe wnaeth Craig ddechrau canu'n fyw fel Secret Postal Society gyda gigs yng Ngŵyl Jazz Aberhonddu ac EastFest ym Mhort Talbot, yn ogystal â slotiau gyda Revolution Rabbit Deluxe ac un brif artistiaid BBC Radio Wales, Kaysha Louvain.

Pan nad yw Craig yn ysgrifennu ac yn recordio fel Secret Postal Society, mae'n cynnal sioe radio Welsh Connections sy'n cael ei darlledu ar orsafoedd yn y DU, UDA, Canada a Sbaen i gynulleidfa fyd-eang o dros 200,000 o wrandawyr wythnosol. Mae Craig hefyd yn gweithio fel cerddor sesiwn, tiwtor ac mae'n gyfarwyddwr cerddoriaeth cwmni cysylltiadau cyhoeddus a hyrwyddo TIWN Media.

**Dilynwch ar Facebook: https://www.facebook.com/SecretPostalSocietyOfficial/**
**Dolen i gerddoriaeth:**
**https://open.spotify.com/artist/6wJMvP0mHXmNpGiYaX7DWW?si=r3VYXTASTASPfc0pZYwavg**

## *Post Modern Shoebox Duo*




O ddeuawd i bumawd, mae Post Modern Shoebox Duo yn canu caneuon pop o dras gydag elfennau o swing. Mae eu cerddoriaeth yn debyg i gyfuniad o Joe Pass a Bon Jovi, George Benson a Guns 'n' Roses a Wes Montgomery a Meghan Trainor. A hwythau'n raddedigion y Royal Birmingham Conservatoire, mae Susie Webb a Craig Webb wedi perfformio ledled Ynysoedd Prydain, gan chwarae cymaint â 250 o gyngherddau y flwyddyn mewn gwyliau cerdd fel Gŵyl Jazz Aberhonddu, mewn lleoliadau fel The Royal Pump Rooms ac wedi cael sylw ar deledu'r BBC (Gŵyl Jazz Aberhonddu).

'One wishes some of the American bands had their groove' - Birmingham Post.

'Some of my favourite musicians' - Andy Roberts, BBC.

**Dolen i Facebook: https://www.facebook.com/chatnchoons**
**Dolen i Instagram: https://www.instagram.com/bluesysusie/**

## *Richard Dinning*




Mae Richard yn cynnig ystod amrywiol o ganeuon gyda lleisiau a gitâr acwstig; caneuon enwog ar draws y degawdau ac ambel gân wreiddiol hynod sy'n cynnig cipolwg ar ei fywyd. Y cyfan wedi'i wneud gyda llawer iawn o hiwmor a phedal harmoni!

**Dilynwch ar Facebook: https://www.facebook.com/Acoustic-i-Richard-Dinning-775059235898826**
**Dolen i gerddoriaeth: https://www.facebook.com/profile.php?id=100076234178589**

## *The Carltones gyda Mudflat Glover*






Canwr-gyfansoddwr a gitarydd o Ddwyrain Llundain yw Carlton Brodin, a gafodd ei ysbrydoli gan ffrwydrad cerddoriaeth ska yr 80au yn Coventry. Bu unwaith yn aelod o The Cosmics, a roddodd lwyfan i The Specials ailffurfio, 10 mlynedd ar ôl creu recordiau two-tone ym 1991.

Mae profiadau cofiadwy Carlton gyda The Cosmics yn cynnwys perfformio yn nathliadau cwymp wal Berlin gan fynd ag ethos o amrywiaeth gerddoriaeth Two Tone i Ddwyrain yr Almaen mono-ddiwylliannol ôl-sofietaidd. Mae hefyd wedi cydweithio gyda The Mad Professor, Lee Scratch Perry, Mackabee, Rico Rodriquez a Roy Shirley.

Bydd Mudflat Glover yn ymuno â Carlton yn syth ar ôl bod ar daith yn yr Unol Daleithiau yn chwarae gitâr fas gyda Dubwar, gan gydweithio unwaith eto ar ôl degawdau. Cyfarfu Mudflat Glover a Carlton wedi i Mudflat symud i Lundain tua 2001, yn fuan ar ôl i Dubwar chwalu, gan chwarae bas gyda The Cosmics. Yn fwy diweddar, mae'r ddau wedi bod yn gweithio gyda Benji Webbe (Dubwar, Skindred).

**Socials: http://www.stamfordhillbillies.co.uk/topic.php?pid=4**
**http://www.dubwar.co.uk/**
**https://www.facebook.com/WAR2021**

## *Hot Gin Duo*




Mae Hot Gin Duo, Mark a Louise, yn hanu o Benarth, De Cymru, ac yn darparu lleisiau gwrywaidd a benywaidd ynghyd â gitâr acwstig. Mae’r ddeuawd wedi crynhoi casgliad lliwgar o gerddoriaeth, er enghraifft, clasuron oesol o’r 1950au, y ‘60au a’r ‘70au yn ogystal ag alawon gwrando hawdd a chyd-ganu mewn amrywiol arddulliau.

Mae Hot Gin Duo yn berfformwyr profiadol (sy’n parhau i ganu yn y bandiau adnabyddus St Louis Express a Hot Gin Swing). Rhyngddyn nhw, maen nhw wedi perfformio gwahanol arddulliau o gerddoriaeth ers nifer o flynyddoedd. A hwythau’n rhannu perthynas wych ar y llwyfan, maen nhw'n dal ac yn ennyn diddordeb eu cynulleidfa mewn sioe broffesiynol sy'n ddifyr i wrando arni, ei gwylio a dawnsio iddi.

Maen nhw wedi perfformio ar gyfer BBC News Bristol, mae ganddyn nhw gyfnodau preswyl mewn bwytai ac yn perfformio’n rheolaidd mewn priodasau, gwyliau, sioeau llwyfan, digwyddiadau arbennig a chartrefi preswyl. Mae'r ddeuawd hefyd yn mwynhau cynnal nosweithiau meicroffon agored wythnosol.

**Dolen i Facebook: https://www.facebook.com/profile.php?id=100078714736788**

## *Omega Two*




Omega Two yw Jane Wiliams (Van Morrison, Wild Willy Barrett) ar Llais/Ukelele/Piano a Pete Mathison (Ray Davies yn y 90au) ar y gitâr. Mae Omega Two yn chwarae cyfuniad o jazz llyfn ac alawon gwrando hawdd, i'ch rhoi chi yn hwyl yr ŵyl! Maen nhw wedi chwarae mewn gwahanol lefydd yn yr ardal - The Dead Canary, The Book Club, Rummer Tavern a Cafe Jazz ynghyd â gwyliau amlwg fel Jazz Aberhonddu ac Aberjazz yn Abergwaun.

**Dilynwch ar Facebook: https://www.facebook.com/omegatwoduo**
**Dolen i gerddoriaeth: https://www.facebook.com/omegatwoduo/videos**

## *Juno Acoustic*



Mae Juno Acoustic yn ddeuawd sy'n cynnwys Maddie a Dan (o RecRock). Enw'r deuawd yw Juno gan fod pobl bob amser yn dweud "d'you knooooow anything by this artist?", ac mae ganddyn nhw stoc eang o ganeuon o'r 60au hyd at heddiw. A hwythau'n perfformio mewn bandiau fel y Pandas, Slipped Disco, The Bandaoke Show, Maditronique, mae gan Dan a Maddie brofiad o berfformio ar hyd a lled y wlad mewn gwyliau a phartïon am y 15 mlynedd diwethaf. Pwerdy 2 ddarn sy'n sicr o wneud i chi ddawnsio o'r eiliad cyntaf un.

**Dolen i Facebook: https://www.facebook.com/junoacousticduo**
**Dolen i gerddoriaeth: https://getittogethermusic.co.uk/**

## *Frankie Wesson Duo*




Dechreuodd y gantores-gyfansoddwraig o dde Cymru Frankie Wesson ysgrifennu caneuon a pherfformio yn ei thref enedigol, Y Fenni yn 16 oed. Cafodd ei chaneuon sinematig eu hysbrydoli gan ei phrofiadau personol o hiraeth chwerwfelys, cariad coll, ing yr arddegau a realiti cymhleth tyfu i fyny yn LHDT.

A hithau wedi'i magu ar gerddoriaeth artistiaid fel Alanis Morisette, Eva Cassidy a Stevie Nicks, mae Wesson hefyd yn cael ei hysbrydoli gan gymysgedd o artistiaid cyfoes fel Deaf Havana, Ed Sheeran, Taylor Swift a Gabrielle Aplin. Cynhyrchodd gerddoriaeth agos-atoch, emosiynol amrwd, ond hamddenol gyda naws pop/gwerin/roc. Mae ei hystod lleisiol amryddawn a'i thalent ar gyfer ysgrifennu caneuon emosiynol yn creu perfformiadau byw cyfareddol a chaneuon a fydd yn saff o ddod yn rhan o'ch ffefrynnau cerddorol.

Mae Frankie wedi cael sylw ar BBC Radio 6 a BBC Introducing yn ogystal â rhestrau chwarae Spotify ‘Chilled Pop Hits’ a ‘New Music Friday’. Mae'r sengl electro-pop ‘Reasons’ o'i halbwm diweddaraf ‘Still Got Time’ wedi cael ei ffrydio dros 112,000 o weithiau ar Spotify.

Disgrifiodd cylchgrawn Soundboard Abertawe gerddoriaeth Wesson fel rhywbeth ‘amserol’ a fydd yn apelio at ddilynwyr Fleetwood Mac a Paramore fel ei gilydd heb gyfaddawdu na gwanio unrhyw arddull sy'n gwneud cerddoriaeth Wesson yn gerddoriaeth hi ei hun... albwm pellgyrhaeddol’.

Mae Frankie wedi perfformio yng Ngŵyl Trefynwy, How The Light Gets In - yn y Gelli Gandryll a Llundain, Gŵyl Gerdd Coleford, Fringe Abertawe, Pride Y Fenni, Rock The Barn a llawer mwy yn ogystal â chwarae’n fyw ar nifer o orsafoedd radio a gigs di-ri o gwmpas Cymru a Lloegr.

**Dilynwch ar Facebook: www.facebook.com/frankiewessonmusic**
**Dolen i gerddoriaeth: www.facebook.com/watch/?v=193317335825978**

## *Spencer Flay*



Mae Spencer wedi gwneud yr ukelele yn offeryn cŵl ar y llawr dawnsio gyda'i guriadau a'i riffs gwych. Yn flaenorol roedd yn fwy adnabyddus fel gyrrwr craen Dociau Bryste, mae wedi gwneud enw i'w hun ledled de-orllewin Lloegr.

Gan gymryd sain fodern a llenwi pob darn ohoni â hiwmor a ffraethineb Bryste, mae'n mynd ymhell y tu hwnt i ailgreu ei ganeuon arloesol ar Waves, gan gymysgu hynny â thraciau ochrau B, tynnu coes o'r radd flaenaf ac ychydig o ganeuon brig y siartiau wedi'u hailddychmygu.

**Dolen i Facebook: www.facebook.com/spencerflaymusic**
**Dolen i gerddoriaeth: https://open.spotify.com/artist/46IxhJGbFfxwNEUu0GKfUQ**

## *Acoustic Notion*



Mae Acoustic Notion yn ddeuawd sy'n cynnwys gŵr a gwraig, David a Leanne. Mae eu perfformiadau yn dod â chyfuniad syfrdanol o leisiau, gitâr a ffidil, gan ddefnyddio eu trefniannau eu hunain o ganeuon o amrywiaeth eang o arddulliau. Cyfarfu David a Leanne am y tro cyntaf

oherwydd eu hoffter o berfformio, gan astudio Theatr Gerdd mewn ysgol ddrama. Gyda blynyddoedd o brofiad cerddorol rhyngddyn nhw yn perfformio'n genedlaethol, yn rhyngwladol ac yn y West End, gall eu harmonïau lleisiol swynol dynnu sylw pawb yn yr ystafell, ac mae eu lleisiau unigryw yn arwain at fersiynau unigryw o'ch holl hoff ganeuon o'r degawdau diwethaf. P'un a ydych chi'n chwilio am gerddoriaeth ymlaciol yn y cefndir neu glasuron cyd-ganu, mae Acoustic Notation yn siŵr o blesio!

**Dolen i Facebook: https://www.facebook.com/acousticnotation**
**Dolen i gerddoriaeth: https://www.acousticnotation.com/**

## *Rebecca Richards*



Pianydd a chantores wedi'i hyfforddi'n glasurol o Bont-y-pŵl yn ne Cymru yw Rebecca Richards, a dechreuodd gyfansoddi caneuon yn ystod blynyddoedd y pandemig ar ôl ymuno â fforwm ysgrifennu caneuon ar-lein "Talent is Timeless" ac mae eisoes yn gwneud enw iddi'i hun gyda'i dilyniannau cordiau hyfryd, alawon swynol a'i llais tlws, ac mae wedi cael ei chymharu â phobl fel Carole King, Katie Melua a Karen Carpenter. Mae ei chaneuon yn ddyrchafol, yn grymuso tra'n cynnal elfen chwerwfelys. "Unluckiest of Hearts", oedd ei sengl gyntaf a ryddhawyd ym mis Hydref 2022 a ganmolwyd fel " syfrdanol" a " llais ingol a hyfryd" a gafodd ei chwarae ar ragleni radio ledled y byd.

Mae ei dylanwadau mawr yn cynnwys The Eagles a Fleetwood Mac. Mae ei cherddoriaeth yn cael ei dylanwadu'n fawr gan y felan, canu gwlad a roc. Yn ddiweddar mae hi wedi dysgu chwarae gitâr mandolin a gitâr tenor sydd, meddai hi, yn ei helpu i gyfansoddi amrywiaeth eang o ganeuon. Mae Rebecca wedi ysgrifennu caneuon di-ri ac wedi ennill sawl cystadleuaeth ysgrifennu caneuon yn dilyn pleidlais ei chymheiriaid a chyrraedd y rhestr hir ddwywaith ar gyfer cystadlaethau rhyngwladol i ysgrifennu caneuon.

**Dolen i Facebook: https://www.facebook.com/Becmusician**
**Dolen i gerddoriaeth:**
**https://open.spotify.com/artist/53JnoVogpi4pu5n7Zb4zg3?si=puN8Ae_iSv-Zqbi9M4ISQw**

## *Wrenna*



Cantores-gyfansoddwr pop o Gaerffili, De Cymru, yw Wrenna, sydd wedi'i hysbrydoli gan berfformwyr fel Birdy a Florence + the Machine. Ar hyn o bryd, mae hi'n gweithio ar gerddoriaeth newydd i'w rhyddhau eleni, gan ysgrifennu am bynciau nad yw pobl yn hoffi siarad amdanyn nhw mewn cymdeithas.  Cadwch lygad am ei set yng Ngŵyl Caws Caerffili ar 1 Medi!

**Dolen i Facebook: https://www.facebook.com/ffionwrenn**
**Dolen i gerddoriaeth: https://open.spotify.com/artist/0vCSJUx2XNcoXMSVN1oaHY?si=PT5FVm3uTGykGG9eqM07wg**

## *Cadence Acoustic Duo*



Deuawd gwrywaidd/benywaidd yw CADENCE, gyda dwy gitâr a digonedd o harmonïau yn perfformio caneuon poblogaidd o'r 1960au i heddiw; ar draws sawl genre o Abba i Zeppelin.

Maen nhw'n berfformwyr profiadol gyda phresenoldeb llwyfan gwych ac yn cysylltu â chynulleidfaoedd yn dda, gan wneud gigs yn llawer o hwyl.

**Dolen i Facebook: https://www.facebook.com/CadenceAcousticCoversDuo**
**Dolen i gerddoriaeth: https://www.facebook.com/CadenceAcousticCoversDuo/videos**

## *RecRock*



Mae RecRock yn fenter gymdeithasol yng Nghaerffili sy'n rhedeg prosiectau sy'n gysylltiedig â cherddoriaeth yn y gymuned. Os oes gennych chi grŵp o bobl sydd â diddordeb mewn cerddoriaeth, gall RecRock weithio gyda nhw i gynnal digwyddiad, ennill cymhwyster, chwarae offerynnau ac, yn bennaf oll, cael hwyl.

Maen nhw'n gweithio gydag ysgolion cynradd ac uwchradd, prosiectau iechyd meddwl, cymdeithasau tai, prosiectau ieuenctid, pobl ag anawsterau dysgu ac anabledd corfforol, troseddwyr ifanc, unedau cyfeirio disgyblion, Canolfan Byd Gwaith a llawer mwy!

Mae eu gweithdai a'u dull o weithio gyda phobl wedi'u profi i wella hyder, hunan-barch a sgiliau cyfathrebu pobl.

**Gwefan: https://recrock.co.uk/about/**

## *Ragsy Quartet*




Mae eleni'n nodi 11 mlynedd ers i Ragsy ymddangos ar The Voice UK a dechrau ei daith gerddoriaeth, ac mae'n teithio eleni i goffau'r foment arwyddocaol hon.

Mae Ragsy ar daith i ddathlu'r garreg filltir hon, gan berfformio ar ei ben ei hyn a gyda band mewn theatrau a gwyliau amrywiol.

Mae'r band yn cynnwys ffrindiau agos iawn, sef y cynhyrchydd, Chris 'Peety' Peet, a Craig 'Pasty' Roberts ynghyd ag ambell aelod arall. Bydd Ragsy yn perfformio caneuon o'i albyms yn ogystal â chaneuon mae e wedi'u perfformio ar The Voice UK wrth adrodd ambell stori ar hyd y ffordd.

**Dolen i Facebook: www.facebook.com/Ragsy**
**Dolen i gerddoriaeth: www.facebook.com/watch/live/ref=watch_permalink&v=650118015622835**

## *The Mendocino Family*




Mae The Mendocino Family, o Dde Cymru, yn fand cŵl sy'n perfformio caneuon gwreiddiol. Maen nhw'n cyfuno cerddoriaeth pop, ffync a roc mewn alawon melodig llawn harmoni sy'n berffaith ar gyfer diwrnod heulog!

**Dolen i Facebook: https://www.facebook.com/TheMendocinoBrothers**
**Dolen i gerddoriaeth: https://www.facebook.com/TheMendocinoBrothers/videos**

## *No One Knows*



Band 4 darn o Gwmbrân yw No One Knows sydd â dros 15 mlynedd o brofiad, yn canu caneuon poblogaidd o’r ‘60au i’r presennol. A hwythau’n aml yn gweithio mewn lleoliadau lleol yn diddanu mewn priodasau a digwyddiadau corfforaethol, mae’r band hefyd wedi rhannu llwyfannau gyda You Me at Six ac wedi perfformio yn nigwyddiad Cynnau Goleuadau Nadolig Canol Cwmbrân sawl gwaith.

**Dolen i Facebook: https://www.facebook.com/nooneknowsofcwmbran**
**Dolen i gerddoriaeth: https://www.youtube.com/channel/UC0osWQXmqbYSLPBO7rr7lYw**

## *Albino Frogs*




Yn cael eu hadnabod yn syml fel 'The Frogs' i'w nifer cynyddol o ddilynwyr sy'n mwynhau eu cerddoriaeth wreiddiol hwyliog a bywiog, mae'r band pedwar aelod hwn o Gymoedd De Cymru yn apelio at bob oed, wrth iddyn nhw chwarae roc Lladin ffynci, sy'n gwneud i chi dapio traed a siglo eich corff.  Ar ben hynny maen nhw hefyd yn chwarae ychydig o jazz a chanu gwlad.

Mae'r caneuon gwreiddiol yn arbennig; gydag alawon bachog cofiadwy, felly erbyn yr ail gytgan byddwch chi'n canu gyda'r band. Darperir bas a drymiau cadarn ond ffynci gan Daryl Cook, gyda Will Palmer yn ategu arddull gitâr hwyliog a llais pwerus Ian Day, tra bod sacsoffon penigamp Ric Lawton, yn eisin ar y gacen. Gyda harmonïau lleisiol 3 rhan yn amlwg, mae The Frogs yn cynhyrchu sain dynn ac ysbrydoledig llawn iawn. Lle mae Steely Dan yn cwrdd â Hue and Cry yn cwrdd â Little Feat, i'r rhai sy'n hoffi cymariaethau, ond y gwir yw bod y band hwn yn wirioneddol wreiddiol a hynod wahanol.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf maen nhw wedi bod yn boblogaidd iawn mewn gwyliau fel Aberhonddu, Rhaglan, Aber Jazz, Jazz Rhyngwladol Abertawe a Jazz Llanelli a Llandeilo a Gŵyl Gerddoriaeth Reading a Gŵyl Gerddoriaeth y Gelli Gandryll, i enwi dim ond rhai. Maen nhw'n parhau i wneud y gigs bara menyn ledled y DU gan lwyddo i ddiddanu yn ddiffael, nid yn unig trwy eu cerddoriaeth gerddorol, ond hefyd eu synnwyr o hwyl, gyda sylwadau wrth fynd heibio trwy gydol y set i ddifyrru eu cynulleidfaoedd. Maen nhw'n gweithio ar drydedd albwm ar hyn o bryd, gan ddenu diddordeb o fannau mor bell i ffwrdd ag Austin Texas.

Mae cerddoriaeth The Frogs wedi cael ei chyflwyno yng ngŵyl gerddoriaeth fawreddog MIDEM Cannes gan dderbyn ymatebion ffafriol o gyn belled i ffwrdd â De America.

**Dolen i Facebook: www.facebook.com/albinofrogs**
**Dolen i gerddoriaeth: https://soundcloud.com/albino-frogs**

## *Nearly Steely*






Band 9 darn o rai o gerddorion gorau De Cymru, mae Nearly Steely yn perfformio holl ganeuon mwyaf poblogaidd o ôl-gatalog anhygoel Steely Dan. "Rikki Don't Lose That Number", "Do It Again", "Haitian Divorce" a "Reelin' in the Years" yw dim ond rhai o ganeuon rhyngwladol gan Steely Dan maen nhw'n eu canu. Gallwch chi ddisgwyl solos gitâr, solos sacsoffon a thrwmped anhygoel yn ogystal â harmonïau 4-rhan gan eu lleisiau gwrywaidd a benywaidd.

**Dolen i Facebook: https://www.facebook.com/groups/242395795400115**

## *Prif Artistiaid: Big Mac's Wholly Soul Band*

Mae Big Mac's Wholly Soul Band yn fand soul clasurol 12 darn sydd wedi bod gyda'i gilydd ers 1990 ac wedi chwarae nid yn unig ledled y DU, gan gynnwys The Marquee Club, The Café Royal, The Rock Garden, Boomtown Festival, Upton Blues, The Dorchester ac ati ond hefyd yn Fiena, Cairo, Tenerife, yr Almaen a Dulyn. Maen nhw wedi cefnogi neu rannu'r llwyfan gyda pherfformwyr fel Billy Ocean, Edwin Starr, Jools Holland, Van Morrison, Earth Wind & Fire, Jimmy James, The Real Thing, Odyssey, Craig Charles, Ruby Turner, Gwen Dickey (Rose Royce), The Commitments, Sheila Ferguson (The Three Degrees), Pato Banton, The Pasadenas, Jaki Graham a llawer mwy.

'Mike, fe wnes i safio'r fideo hwn ohonoch chi a'r grŵp yn ei perfformio IN THE MIDNIGHT HOUR, rydych chi'n edrych yn wych, ac yn gwneud gwaith anhygoel ar y gân WICKED. LLAWER O GARIAD i ti fy ffrind.' Maxwell Pickett (brawd Wilson Pickett).

**Dolen i Facebook: https://www.facebook.com/groups/21693080282**
**Dolen i wefan: https://bigmacswhollysoulband.com/**
**Dolen i gerddoriaeth: https://www.youtube.com/@sarahcampbell2000**

## *Connect Life*




Mae Connect Life yn eglwys sydd wrth ei bodd yn addoli ac yn moli Duw, yn cael ei hysbrydoli gan Ei Air ac yn rhannu cariad Iesu ag eraill. Mae Iesu Grist yn ganolog i bopeth maen nhw'n ei wneud ac ym mhopeth y maen nhw. Fel eglwys, maen nhw'n gweddïo yn daer, chwerthin yn llawen, teimlo'n dosturiol, addoli yn frwdfrydig, rhoi'n hael, gwasanaethu'n anhunanol a byw'n fuddugoliaethus. Mae croeso cynnes yn aros ar gyfer unrhyw un o unrhyw oedran.

**Dolen i Facebook:**
**https://www.facebook.com/connectlifechurch/about_details?locale=en_GB**

## *Pyramid*



Band 3 darn o Gaerllion yw Pyramid sy’n perfformio caneuon o’r ‘60au hyd heddiw. Mae'r band yn canu caneuon gan nifer amrywiol o artistiaid fel The Beatles, Bruce Springsteen, Queen a The

Killers i enwi ond ychydig. Mae eu harmonïau 3-rhan a'u caneuon, nad ydyn nhw'n cael eu perfformio gan y rhan fwyaf o fandiau fel arfer, yn eu gosod o'r neilltu oddi wrth fandiau arferol sy'n canu caneuon pobl eraill. Mae Pyramid yn perfformio mewn nifer o leoliadau ar gylchdaith gerddoriaeth De Cymru ac yn edrych ymlaen yn fawr at berfformio yn yr ŵyl eto eleni!

**Dilynwch ar Facebook: www.facebook.com/pyramidcoverband**
**Dolen i gerddoriaeth: www.facebook.com/watch/?v=872050216560020**

## *Livestock Davies and The Lowdown Snakes*




Mae Livestock Davies & the Lowdown Snakes yn driawd Rockabilly Cymreig ardderchog. Wedi'i arwain gan Livestock (Rob) Davies ar y gitâr a'r llais, mae'r triawd hwn yn atgynhyrchu sain roc a rôl go iawn o'r '50au gyda synau gitâr a bas dwbl. Cewch eich cludo yn ôl i'r 50au a mwynhau'r triawd anhygoel hwn!

**Dolen i Facebook: https://www.facebook.com/LivestockDavies**
**Dolen i gerddoriaeth: Youtube: Livestock Davies & The Lockdown Shakes (Congress Theatre & Virtual Studio)**

## *The Strip Lights*



THE STRIP LIGHTS – band indie/roc/pop pum darn o dde Cymru.
Byddan nhw’n saff o gadw'r parti i fynd! O glasuron bythol i ffefrynnau cyfoes, mae The Strip Lights yn meddu ar y gallu rhyfedd i ddarparu ar gyfer pob chwaeth gerddorol, gan sicrhau bod yr egni yn parhau i fod yn uchel drwy gydol y dathliad. Paratowch i ddawnsio a chanu gyda The Strip Lights!

**Dolen i Facebook: https://www.facebook.com/thestriplights**
**Dolen i gerddoriaeth: https://www.youtube.com/thestriplights**

## *Prif Artistiaid: Slipped Disco*



Mae Slipped Disco, sydd wedi'i leoli yng Nghaerdydd, yn act fyw ffyrnig, 9 darn gydag adran corn ffrwydro, lleisiau diva ac offerynnau taro disglair, wedi'u haenu dros rythmau heintus eu llinell gefn syfrdanol. Gan gyfuno clasuron disgo gyda dogn trwm o ffync, mae'r band wedi swyno cynulleidfaoedd ers iddyn nhw ffurfio yn 2018, ac maen nhw'n parhau i godi'r toeau lle bynnag y maen nhw'n crwydro. Gyda golwg ar oruchafiaeth y byd, maen nhw'n dod i dref yn agos atoch chi! Felly, sychwch y llwch oddi ar eich peli disgo, bachu eich 'flêrs' a dawnsio i guriadau disgo mwyaf ffres y dref! Pan rydyn ni’n dweud ‘Slipped’, rydych chi’n dweud ‘DISCO!’

**Dolen i Facebook: https://www.facebook.com/slippeddiscouk**

**Dolen i gerddoriaeth: https://getittogethermusic.co.uk/bands/slipped-disco/**